

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

6/3/2018

Presennol: Alwyn E Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1830 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Alwyn E Jones a derbyniwyd ymddiheuriadau Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts.

1831 Cyhoedd: Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1832 Buddiant: Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Alwyn Jones a Huw Antur ym mater 1850 (cyfraniadau blynyddol).

1833 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/2/18.

1844 Materion y Clerc : Cyhoeddwyd ymddiswyddiad Ian Trow o'r Cyngor. Diolchwyd iddo am ei waith a chyfarwyddwyd y Clerc i wneud y trefniadau yn ôl y drefn a osodwyd.

- i. 1821 i Datganodd Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd nad eu cyfrifoldeb hwy yw clirio'r ardal lle mae'r bws yn troi'n ôl, ond deallwyd fod Parc Cenedlaethol Eryri yn mynd i wneud y gwaith tan y bydd y cyfrifoldeb wedi ei drosglwyddo i Gyngor Gwynedd.
- ii. 1821 iii Ymatebodd Liz Haynes i'r angen i gysylltu'r llwybrau wrth Bont Lliw gan ddweud ei bod yn anfon y cais ymhellach at isadran Rheoli Rhwydwaith.
- iii. 1822 Halen: mae Partneriaeth Penllyn yn edrych mewn i'r mater o gynllun i ddarparu halen. Bydd angen ystyried y sefyllfa eto ym mis Medi.
- iv. 1830.2 Cytunwyd nad oedd ymgeisio am offer technegol i'r pentref yn ymarferol.
- v. Rhoddodd y Clerc adroddiad o'r Panel ar Ddemocratiaeth Leol a fynychodd ar 6/3/18 yng Nghaernarfon. Rhodri Glyn Thomas oedd y Cadeirydd ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd canmoliaeth i waith Partneriaeth Penllyn a chydnabyddiaeth cyffredinol fod rhwystredigaethau yn atal Cynghorau Cymuned a Thref rhag gweithredu'n effeithiol yn lleol. Awgrymwyd creu Fforwm rhwng y Cyngor Sir a'r Cynghorau lleol er mwyn hyrwyddo datganoli cyfrifoldebau. Dylai unrhyw ddatganoli derbyn cymorth cyfreithiol, ymarferol ac incwm wrth drosglwyddo cyfrifoldebau. Roedd cefnogaeth i ddatganoli cyllid yn uniongyrchol o'r Llywodraeth i'r cynghorau cymuned a thref.

1845 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir, Alan Jones Evans, a soniodd am y cynnydd yng nghostau'r Cyngor Sir oherwydd chwyddiant. Dywedodd ei fod wedi trafod Cynllun Atal Trychineb gyda swyddogion i'w roi ar waith mewn tywydd gwael. Ar ran trigolion lleol mynegodd ein diolch i'r gweithwyr rheng flaen a fu'n gweithio mor galed yn ystod cyfnod yr eira.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

1848 Y Noson Goffi: Adroddwyd y bu'r Noson Goffi yn un llwyddiannus iawn a diolchwyd i Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched am baratoi'r lluniaeth, ac i dri aelod "Y Gwir a'r Gwirion" a phawb arall am noson hwyliog dros ben. Bydd £534.10 yn cael ei anfon at y Gwasanaeth Ambiwlans Awyr ac elusen cancr. Wrth adolygu'r trefniadau, cytunwyd fod mis Chwefror yn amser da i gynnal y noson goffi a bod 7.00 yn amser ymarferol i gychwyn ar y noson.

1849 Materion ariannol: Cadarnhawyd adroddiad (e-bost) y Swyddog Ariannol Cyfrifol.

1850 Cyfraniadau Blynnyddol: Ystyriwyd ceisiadau a chytunwyd i gyfrannu fel a ganlyn: Llên y Llannau £50; Teulu Gwalia £50; Adran Bentref £200; CFFI Glannau Tegid £200; Eisteddfod Llungwyn £100; Clwb Pêl-droed £200; Cymdeithas Rhieni Ysgol y Berwyn £100; Canolfan Y Plase £100; Eisteddfod Cylch Penllyn £150; Theatr Bara Caws £100; CFFI Meirionnydd £200; Pwyllgor Adloniant Cymuned Llanuwchllyn £250; Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog £100; Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (Llanelwedd) £55; Sioe Amaethyddol ac Arddwriaethol Llanuwchllyn £100

Gweir cyfraniad ar wahân tuag at y Neuadd Bentref.

1851 Prosiect Byrddau Gwybodaeth: Derbyniwyd gwybodaeth fod cais am grant i Gronfa Eryri wedi bod yn llwyddiannus. Fe fydd yr is-bwyllgor yn bwrw ymlaen gyda'r camau nesaf.

1852 Materion lleol: Addawodd Arwel Lloyd Jones ac Alwyn E Jones ail osod yr arwyddion yn y fynwent sydd wedi disgyn yn y tywydd stormus.

1853 Is bwyllgorau: Trefnwyd dyddiadau ar gyfer yr Is bwyllgorau:

laith - pan fo'n gyfleus i'r aelodau

Mynwent – 3/4/18 am 7.00 yn y Syrjeri; hefyd sgwad clirio 9/4/18 am 7.00pm

Cyllid – 26/3/18 am 7.30 yn y Syrjeri

Toiledau - i'w drefnu

1854 Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr, Huw Antur ac Alwyn E Jones: mae'r dyraniad ar gyfer cynnal llwybrau cyhoeddus yr un fath a llynedd. Disgwylir cymeradwyaeth cais cynllunio ar adeilad cofrestredig yr Henblas cyn cyflwyno'r cais am grant i'r loteri.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/4/18 yn y Neuadd Bentref